**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher 3ydd Tachwedd 2021, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs E. M. Chard, A. R. James, B. Jones, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, Ms V. Roberts, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

## 48. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs P. M. Jones, B. Mellor, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, Mrs M. Walker a hefyd gan Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref.

## 49. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – HYDREF 2021

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaeth |
|---|---|---|---|
| 1245 | Shire Leasing | 337.33 | Prydles rhentu system ffôn Avaya 21/22 3 of 4 |
| 1246 | BT | 497.54 | Rhentu llinell a chynnal a chadw a thaliadau galwadau |
| 1247 | HSBC | 6.50 | Taliadau banc 17 Awst 2021 – 16 Medi 2021 |
| 1140 | Cyngor Sir Ddinbych | 736.00 | AAC Swyddfeydd Dinesig Ffordd Wellington– Taliad 7 o 10 |
| 1168 | Siop Cymorth ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apelio - Taliad 7 o 12 2021/22 |
| 1252 | Gunsmoke Communications | 1,600.00 | Ffi rheoli Medi 2021 |
| 1253 | CThEM | 2,794.89 | Didyniadau PAYE Medi 2021 |
| 1254 | Cyngor Sir y Fflint (Cronfa Bensiwn Clwyd) | 4,294.23 | Cyfraniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Medi 2021 |
| 1255 | Cyflogau staff | 7,362.97 | Cyflogau staff Hydref 2021 |
| | **Cyfanswm taliadau** | **18,546.12** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm £ |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar Gyfrif Rhybudd 31 Diwrnod | 22.81 |
| HSBC | Llog ar gyfrif 7 Day Money Market Deposit | 0.77 |
| HSBC | Llog ar gyfrif 7 Day Money Market Deposit | 0.77 |
| HSBC | Llog ar gyfrif 7 Day Money Market Deposit | 0.77 |
| HSBC | Llog ar gyfrif 7 Day Money Market Deposit | 0.77 |
| CThEM | Ad-daliad TAW ar gyfer Chwarter 2 (Gorffennaf i fis Medi 2021) | 3,904.61 |
| | **Cyfanswm incwm** | **3,930.61** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo’r adroddiad.*

## 50. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I’R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â’r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i’w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda’r rhaglen).

| Rhif Taleb | Enw’r Cyflenwr | Disgrifiad o’r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1264 | Town Square Spaces Ltd | Llogi ystafell ar gyfer digwyddiad September Sizzler | £60.00 |
| 1265 | Sage & Co | Gwasanaeth Cyflogres ar gyfer Gorffennaf - Medi 2021 | £93.00 |
| 1266 | Pwyllgor Lles y Frigâd Dân | Cyfraniad i Goelcerth a Thân Gwyllt y Rhyl | £5,000.00 |
| 1267 | Lleng Brydeinig Frenhinol | 2 x Torch | £100.00 |
| ***Cyfanswm*** | | | **£5,253.00** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo’r atodlen ar gyfer ei thalu a’i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

## 51. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 30AIN MEDI AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2021/22

Ymhellach i gofnod rhif 40 cyfarfodf y Cyngor a gynhaliwyd ar 21ain Gorffennaf 2021, cyfeiriodd Clerc y Dref at ei gyd-adroddiad ef a’r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda’r rhaglen) ar sefyllfa ariannol y Cyngor ar 30ain Medi 2021 a’r amcanestyniadau ar gyfer diwedd blwyddyn 2021/22.

I grynhoi, gofynnwyd i’r aelodau:

- nodi’r amrywiadau allweddol ynddo,
- y ddiffyg a ragwelwyd o £69,870, yn bennaf oherwydd ad-dalu £100,000 ar y Benthyciad SC2,
- nodi bod meysydd o ansicrwydd o hyd ac efallai y bydd angen gwariant anhysbys pellach mewn perthynas â digwyddiadau, gerddi coffa, goleuadau a diffibrilwyr cymunedol.
- y bwriad i ddefnyddio £100,000 o Gronfa Wrth Gefn Benthyciad SC2 a £20,000 o Gronfa Wrth Gefn CG Tynewydd, y bwriad i drosglwyddo £15,000 i’r Gronfa Wrth Gefn Prosiectau Mawr ac yn olaf y byddai pob cronfa wrth gefn yn cael ei hadolygu yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol.
- Y bwriad i drosglwyddo i ac o amrywiol gronfeydd wrth gefn a enwir yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol

- Nodi bod y Cronfeydd Cyffredinol ar hyn o bryd yn debygol o fod yn 35% o'r praesept ar ddiwedd y flwyddyn ac yn agos iawn at y targed Polisi Cronfeydd Wrth Gefn o 33% yn unol â'r cynllun polisi a fabwysiadwyd.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**52. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – DEDDF PRIFFYRDD 1980 – CYNNIG I GAU RHAN O'R BRIFFORDD: ALI YNG NGHEFN EDWARD HENRY STREET, Y RHYL**

Cyflwynodd y Cadeirydd ohebiaeth (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) gan Gyngor Sir Ddinbych yn ymgynghori ar gau ali yng nghefn Edward Henry Street, y Rhyl ac yn gofyn am farn yr aelodau ar y cynnig.

***PENDERFYNWYD*** *peidio â gwrthwynebu.*

**53. YMGYNGHORIAD: CYNLLUN AMDDIFFYNFEYDD MOROL CANOL PRESTATYN**

Ymhellach i'r cyd-gyfarfod gyda Grŵp Ardal y Rhyl a gynhaliwyd ar 15fed Hydref 221, dywedodd y Cadeirydd bod y Cyngor nawr wedi derbyn cais cyn gwneud cais ar gyfer cynllunio, hysbysiad ymgynghori (copi o'r hwn a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) mewn perthynas â'r cynnig uchod a gofynnodd i'r aelodau nodi eu barn.

Dywedodd aelod ei fod yn credu bod peth dryswch rhwng y gwahanol gynlluniau a oedd yn mynd rhagddynt ac nad oedd y cais presennol yn ymwneud ag amddiffyniadau creigiog.

***PENDERFYNWYD*** *peidio â gwneud unrhyw sylwadau ar y cais ar hyn o bryd.*

**54. CYNGOR SIR DDINBYCH – CYNNIG I BRYNU CRIBIN TRAETH AR Y CYD**

Hysbysodd y Cadeirydd y cyfarfod o gynnig a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ddinbych (copi wedi ei ddosbarthu gyda'r rhaglen) yn gwahodd y Cyngor Tref i ystyried cyd-brynu/ariannu (gyda Chyngor Sir Ddinbych a Chyngor Tref Prestatyn) Cribin Traeth i gynorthwyo gyda symud sbwriel oddi ar y traethau yn y Rhyl a Phrestatyn.

Argymhellodd Clerc y Dref, os oedd yr aelodau yn penderfynu cefnogi'r cais mewn egwyddor, yna dylid gwahodd cynrychiolydd y Cyngor Sir i fynychu cyfarfod yn y dyfodol i ymateb i gwestiynau'r Aelodau mewn perthynas â'r offer.

***PENDERFYNWYD*** *gwahodd Mr. Andy Clark o Gyngor Sir Ddinbych i gyfarfod yn fuan i drafod y mater ymhellach.*

**55. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**56. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at dderbyn cais am gymorth ariannol (copi wedi ei ddosbarthu gyda'r rhaglen) gan awdur lleol i gynorthwyo gyda chyhoeddi ei lyfr. Nododd yr aelodau bwnc y llyfr ac nad oedd wedi derbyn cymorth a'r cais gan unigolyn lleol i'r cyngor ystyried rhoi cymorth ariannol i gynorthwyo gyda chyhoeddi ei lyfr newydd.

***PENDERFYNWYD*** *gwrthod y cais.*

**57. EITEM YCHWANEGOL ER GWYBODAETH: CYSTADLEUAETH FFENESTRI NADOLIG**

Gyda chaniatâd y Cadeirydd dywedodd y Cynghorydd Mrs W. Mullen-James bod trefniadau ar y gweill ar gyfer cystadleuaeth eleni a gwahoddodd yr aelodau a oedd â diddordeb mewn cynorthwyo i gysylltu gyda hi.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr aelodau hynny yn cysylltu gyda'r Cynghorydd Mullen-James yn uniongyrchol.*

**58. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: ………………………